Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Annwyl Rhieni/gofalwyr, 21-10-20

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ysgrifennu atoch i ddiolch i chi am bopeth rydych chi wedi'i wneud i helpu'ch plentyn i ddysgu ers mis Mawrth ac, yn fwy diweddar, ers i'n hysgolion ail-agor ym mis Medi.

Hoffwn hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am nifer o faterion sy'n effeithio ar ysgolion, arnoch chi fel rhieni/gofalwyr ac ar ddysgwyr. Mae'n ddrwg gen i fod hwn yn llythyr hir, ond roeddwn i'n teimlo y byddai'n ddefnyddiol i chi gael gwybodaeth gynhwysfawr. Mae'r nodyn hwn yn ymdrin â'r materion canlynol:

- Dysgwyr sy'n defnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol i wisgo gorchudd wyneb
- Dysgwyr ysgolion uwchradd i wisgo gorchudd wyneb
- Presenoldeb dysgwyr sy'n dangos symptomau
- Hunan-ynysu
- Trefniadau 'Swigod' yn yr ysgol
- Cadw pellter cymdeithasol
- Ymddygiad dysgwyr
- Parcio ar/tu allan i safle'r ysgol

Dysgwyr sy'n defnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol i wisgo gorchudd wyneb

Byddwn yn ddiolchgar i chi wneud yn siŵr bod dysgwyr oedran uwchradd yn gwisgo gorchudd wyneb pan fyddant yn defnyddio cludiant ysgol. Nid yw hyn yn cynnwys rhai dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu gyflyrau meddygol perthnasol sy'n cael eu heithrio. Rydyn ni wedi rhoi gorchudd wyneb addas i bob dysgwr a gofynnwn i chi sicrhau ei fod gyda nhw (neu orchudd arall) ar drafnidiaeth ysgol, a'u bod wedi golchi neu ddiheintio eu dwylo.

Os yw dysgwr yn gwrthod gwisgo gorchudd wyneb er nad yw wedi'i eithrio rhag gwneud hynny, neu os yw dysgwr yn tynnu'r gorchudd wyneb tra bydd yn defnyddio cludiant ysgol, mae'n bosibl na chaiff deithio ymhellach ac y bydd yn colli ei hawl i ddefnyddio cludiant ysgol. Gan hynny, rwy'n gofyn i chi wneud pob ymdrech i sicrhau bod eich plentyn yn cadw at y gofyniad hwn.

Dysgwyr ysgolion uwchradd i wisgo gorchudd wyneb

Rydym yn cynghori pob disgybl ysgol uwchradd i wisgo gorchudd wyneb addas mewn mannau cyhoeddus yn yr ysgol, gan gynnwys ar y coridorau, yn y neuaddau ac yn y toiledau. Nid yw hyn yn cynnwys rhai dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol, cyflyrau meddygol perthnasol neu ddysgwyr ag anableddau sy'n cael eu heithrio. Nid yw'n cynnwys dysgwyr ysgolion cynradd ychwaith. Yr ysgolion unigol sy'n gyfrifol am benderfynu lle y mae angen i'n dysgwyr wisgo gorchudd wyneb ac rydym yn eich cynghori i wneud yn siŵr bod eu plentyn yn cadw at y gofynion sydd ar waith yn yr ysgol.

Presenoldeb dysgwyr sy'n dangos symptomau

Os nad yw eich plentyn yn teimlo'n hwylus ac yn dangos unrhyw un o'r symptomau isod, peidiwch â'i (h)anfon i'r ysgol. Dyma brif symptomau COVID-19:

- **tymheredd uchel- y frest neu'r cefn yn teimlo'n dwym;**
- **peswch newydd parhaus- sef pesychu'n aml am dros awr, neu dri phwl o besychu neu ragor mewn 24 awr; a/neu**

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

- **newid yn y gallu i arogli neu flasu- hynny yw, ni allant arogli neu flasu dim, neu mae pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.**

Os oes gan eich plentyn unrhyw un o brif symptomau'r coronafeirws:

- **trefnwch i'ch plentyn gael prawf cyn gynted â phosibl i gadarnhau a yw wedi dal y coronafeirws ai peidio; ac**
- **arhoswch gartref a pheidiwch â gadael i neb ymweld â chi nes cewch ganlyniad y prawf.**

Rhowch wybod i ysgol eich plentyn **ar unwaith** neu os y tu allan i oriau arferol ffoniwch Llesiant Delta Wellbeing ar **0300 333 2222** neu drwy anfon e-bost TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan.

Gofalwch eich bod yn dilyn canllawiau **Hunan-ynysu: canllawiau aros gartref** Llywodraeth Cymru.

Os nad oes gan eich plentyn symptomau COVID-19 ond mae ganddo(i) symptomau annwyd, e.e. os yw ei (th)drwyn yn rhedeg, nid oes angen trefnu prawf ac nid oes angen i'ch plentyn na chi hunan-ynysu.

Dylai'ch plentyn ddod i'r ysgol os yw'n teimlo'n ddigon iach i wneud hynny.

Hunan-ynysu

Os bydd yr ysgol yn gofyn i'ch plentyn hunan-ynysu, bydd hynny'n digwydd yn dilyn asesiad a gymeradwyir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n bwysig iawn cadw at y gofyniad hwn. **Os bydd angen i berson hunan-ynysu, ni chaiff adael y cartref ac ni chaiff neb fynd i'r cartref oni bai eu bod yn byw yno.** Cofiwch y gall asiantaethau roi dirwy i chi os na fyddwch yn cadw at y rheolau hunan-ynysu.

Os bydd eich plentyn yn cael ei enwi fel un a fu mewn cysylltiad ag unigolyn (disgybl neu aelod o staff) a gafodd ganlyniad positif ar ôl cael prawf COVID-19, bydd yr ysgol yn cysylltu â chi'n syth i drefnu i chi nôl eich plentyn o'r ysgol. Rydym yn eich cynghori felly i ystyried y posibilrwydd hwn o flaen llaw. Hyd yn oed os oes gan eich plentyn hawl i ddefnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai wneud hynny mewn sefyllfa o'r fath. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yr awdurdod lleol yn gallu cludo dysgwyr adref o'r ysgol os bydd angen iddynt hunan-ynysu.

'Swigod' yr ysgol a chyfarwyddid hunan-ynysu

Mae ysgolion yn gweithio'n galed i leihau'r siawns y bydd COVID-19 yn lledaenu. Er mwyn cyfyngu ar nifer y cysylltiadau, mae dysgwyr yn cael eu cadw gyda'u grwpiau blwyddyn a/neu ddosbarthiadau eu hunain i ffurfio 'swigen' a fydd yn cael eu cadw ar wahân i 'swigod' eraill.

Mae cynnal grwpiau neu swigod nad ydynt yn cymysgu yn ei gwneud yn haws, pe bai achos positif, i adnabod y rhai sy'n gysylltiadau agos, ac efallai y bydd angen iddynt hunan-ynysu a chadw'r rhif hwnnw mor fach â phosibl.

Pan fydd gan ysgol achos positif o COVID-19, gofynnir ar unwaith i bawb sydd yn y swigen hunan-ynysu a gweithio gartref fel mesur rhagofalus ac ataliol tra bo'r broses Profi, Olrhain, Diogelu yn adnabod yr unigolion hynny sy'n gysylltiadau uniongyrchol.

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Gofynnir i'r rhai sydd wedi cael cysylltiad agos â'r achos positif i hunan-ynysu yn unol â'r canllawiau cenedlaethol, am 14 diwrnod ar ôl eu cyswllt diwethaf â'r achos positif. Gallai hyn gynnwys y swigen gyfan. Mae hyn er mwyn atal y feirws rhag cael ei drosglwyddo ymhellach; gan sicrhau, os yw dysgwyr (neu staff) yn cario'r feirws (hyd yn oed heb symptomau), nad ydynt yn dod i gysylltiad ag eraill ac o bosibl yn lledaenu'r feirws ymhellach.

Os caiff ei gadarnhau nad yw eich plentyn wedi dod i gysylltiad â'r unigolyn dan sylw, yna bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i chi am ddyddiad y gall eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol (cyn belled â'i (b)fod yn iach a ddim yn arddangos symptomau).

Cadw pellter cymdeithasol

Mae pob ysgol wedi cynnal asesiad risg ac yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar reoli COVID-19. Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud ym mhob ysgol ac o amgylch pob ysgol, rwy'n gofyn i chi'n helpu i gadw cymunedau'r ysgolion yn ddiogel. Yn y cyswllt hwn, rwy'n gofyn i chi barhau i ddilyn yr holl ganllawiau cenedlaethol a lleol nid yn unig yn yr ysgol ond ym mhob man, gan gynnwys y cyfyngiadau symud diweddaraf.

Mae hyn yn bwysig gan ein bod yn ymwybodol bod COVID-19 yn cylchredeg yn y gymuned a rhaid i bob un ohonom gymryd cyfrifoldeb dros wneud yn siŵr bod cymuned yr ysgol yn cael ei chadw mor ddiogel â phosibl.

Ymddygiad dysgwyr

Hoffwn eich atgoffa bod ymddygiad da gan ddysgwyr yn parhau'n flaenoriaeth gennym. Bydd ysgolion yn cymryd y camau priodol os bydd problemau ymddygiad yn codi gan ddefnyddio'r dulliau angenrheidiol os bydd angen.

Parcio ar/tu allan i safle'r ysgol

Gall amseroedd gollwng a chodi'r plant fod yn brysur iawn o amgylch yr ysgol oherwydd bod cynifer o blant ar y safle. Gan hynny, hoffwn ofyn i chi ystyried diogelwch plant wrth yrru a pharcio ger yr ysgol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau eich bod yn gyrru ac yn parcio'n ddiogel mewn ardaloedd priodol, hyd yn oed os yw hyn yn golygu taith gerdded hirach i gatiau'r ysgol. Os na allwch gydymffurfio â gofynion ymbellhau cymdeithasol y tu allan i'r ysgol, fe'ch cynghorir i wisgo gorchuddion wyneb wrth ollwng a chasglu eich plentyn- mae rhieni yn Ardal Diogelu Iechyd Llanelli wedi gwneud hyn yn effeithiol dros yr wythnosau diwethaf.

Hoffwn eich sicrhau chi ein bod yn gweithio'n agos gydag arweinwyr pob ysgol er mwyn caniatáu iddynt aros ar agor yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae ein staff yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod holl gymuned yr ysgol yn ddiogel. Mae'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a chânt eu newid i gyd-fynd â'r canllawiau diweddaraf er mwyn lleihau unrhyw risgiau.

Rwy'n sylweddoli bod hwn yn gyfnod pryderus i deuluoedd ac rwy'n ddiolchgar iawn am eich cydweithrediad gan obeithio y cewch wyliau hanner tymor pleserus.

Diolch i chi, unwaith eto, am eich cefnogaeth barhaus,

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English